**Huw Irranca-Davies AC/AM**
**Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children, Older People and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA - L/HID/0441/18

Mick Antoniw
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

18 Medi 2018

Annwyl Mick,

**Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)**

Diolch i'r pwyllgor am ystyried Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 28 Mehefin 2018.

Rwyf wedi nodi pryderon y pwyllgor ynglŷn â'r ffordd y cafodd y Bil ei lunio a barn y pwyllgor nad yw'r llywodraeth wedi llwyddo i daro'r cydbwysedd cywir rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd wedi'i gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion adolygu'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy reoliadau. O ganlyniad, byddaf yn cyflwyno gwelliannau'r llywodraeth, a fydd yn helpu i ymateb i argymhellion y pwyllgor ac yn helpu i egluro pwrpas arfaethedig y Bil.

Drwy gynnwys mwy o wybodaeth am bwy sy'n "blentyn cymwys" ar wyneb y Bil, rwy'n gobeithio y lleddfir pryderon y pwyllgor ynghylch y potensial i'r Bil, fel y'i drafftiwyd, gael ei ddefnyddio "i ddilyn polisi cwbl wahanol i'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol, er enghraifft, gofal ar ôl yr ysgol i blant 8 i 13 oed."

Rwyf wedi cydbwyso barn y pwyllgor yn hyn o beth ag argymhelliad 10 gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sy'n cyflwyno'r achos dros gynnal hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol o ran oedran plant cymwys.

Wrth ymateb i argymhellion y tri phwyllgor sydd wedi craffu ar y Bil, rwyf wedi ceisio sicrhau cydbwysedd gofalus, ond mae'n anochel y bu adegau pan oedd rhaid i mi ddewis un ochr yn hytrach na'r llall.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf yn nodi pryderon y pwyllgor hefyd nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn craffu ar y cynllun gweinyddu. Yn fy ymateb i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, rwyf wedi cynnig rhannu fframwaith cychwynnol ar gyfer cynllun gweinyddu gyda'r pwyllgor cyn Cyfnod 3. Rwyf wedi dweud hefyd y byddwn yn croesawu'r cyfle i ddychwelyd i'r pwyllgor yn y gwanwyn gyda chynllun drafft.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i'ch gwneud yn ymwybodol o newid yn y trefniadau cyflawni ar gyfer ail flwyddyn gweithredu'r cynnig gofal plant yn gynnar a fydd yn cael effaith ar yr opsiynau yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil.

Yn y flwyddyn gyntaf, ymgymerodd pob awdurdod lleol â'r broses lawn eu hunain, gan gynnwys asesu ceisiadau a phrosesu taliadau i ddarparwyr gofal plant. Ar gyfer y cyfnod gweithredu'n gynnar sy’n weddill hyd nes y caiff ei gyflwyno'n genedlaethol yn 2020, byddwn yn gofyn i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth, gydag un awdurdod yn derbyn a phrosesu ceisiadau ar ran eraill ac yn gwneud y taliadau perthnasol. Bwriad hyn yw lleihau'r costau sydd eisoes wedi eu gwario ac na ellir eu hadennill yng nghyswllt dull gweithredu na fyddwn yn bwrw ymlaen ag ef am byth a sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl i drethdalwyr.

Bydd y dull hwn yn cael ei ychwanegu at Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil fel pumed opsiwn yn ystod Cyfnod 2. Bydd y data'n cael ei rannu cyn gynted ag y bydd ar gael, er na ddisgwylir iddo wneud gwahaniaeth sylweddol i gydbwysedd y costau rhwng ein hopsiwn dewisol o ddefnyddio CThEM a'r opsiynau eraill.

Mae Atodiad A yn rhoi ymateb manylach i'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystod proses graffu Cyfnod 1.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a’r Pwyllgor Cyllid er gwybodaeth.

Yn gywir

**Huw Irranca-Davies AC/AM**
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People and Social Care

Atodiad A

**Argymhelliad 1**

**Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gynnydd y trafodaethau cydsynio â Llywodraeth y DU yn ystod dadl Cyfnod 1.**

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Rwyf yn falch o ddweud bod pob cydsyniad angenrheidiol ar gyfer y darpariaethau rhannu gwybodaeth yn adrannau 4 a 5 y Bil wedi'i sicrhau. Roedd cydsyniad Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi'i sicrhau cyn cyflwyno'r Bil a sicrhawyd cydsyniad yr Ysgrifennydd Cartref a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ar 28 Mehefin. Roedd fy llythyr ar 9 Gorffennaf at y Llywydd, yr anfonwyd copi ohono at gadeiryddion pwyllgorau, yn cadarnhau hyn. Byddaf yn darparu diweddariad, fel y gofynnwyd, yn ystod dadl Cyfnod1.

**Argymhelliad 2**

**Nid ydym yn fodlon ar y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth. Dylai'r Gweinidog gynnal adolygiad sylfaenol o'r cydbwysedd cyn trafodion Cyfnod 2, â'r amcan o amserlenni gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod bwriad polisi'r Bil yn fwy eglur o lawer.**

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Rwyf wedi gwrando ar bryderon y pwyllgor hwn a rhai'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth ac wedi cynnal adolygiad.

Credaf fod yna achos cryf, gan fod hwn yn Fil technegol, dros roi'r rhan fwyaf o'r manylion gweithredol mewn rheoliadau ac mewn cynllun gweinyddu yn hytrach nag ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod ei bod yn bwysig bod y Bil yn glir ynghylch ei ddiben bwriedig, ond gan gadw rhywfaint o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer unrhyw addasiadau bach a allai fod yn angenrheidiol yng ngoleuni tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o'r adroddiadau gwerthuso neu i ddarparu ar gyfer dyheadau polisi gweinyddiaethau yn y dyfodol. Gyda hyn mewn golwg, rwyf yn ystyried cyflwyno gwelliant i'r Bil, gyda'r bwriad o fynd i'r afael ag argymhelliad 5 hefyd.

**Argymhelliad 3**

**Dylai'r Gweinidog ystyried cynnwys yn y Bil ddarpariaethau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru adolygu a diddymu'r ddeddfwriaeth (pe byddai wedi'i deddfu a'i dechrau). Dylai darpariaethau o'r fath sicrhau:**

- **y cynhelir yr adolygiad ar ôl cyfnod priodol ac y caiff ei gasgliadau eu cynnwys mewn adroddiad a gaiff ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol, a'i drafod ganddo;**
- **os bydd yr adolygiad yn dangos nad yw'r ddeddfwriaeth yn gweithredu fel y bwriadwyd (er enghraifft), dylid ei diddymu. Dylai'r ddarpariaeth machlud ddilyn y dull sydd wedi'i gynnwys ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).**

**Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad Cenedlaethol am ganlyniad ei ystyriaethau yn ystod dadl Cyfnod 1 ar y Bil.**

Rwyf yn **parhau i archwilio'r opsiynau** sydd ar gael mewn perthynas â'r argymhelliad hwn. Nid wyf yn credu bod darpariaethau adolygu fel hyn yn briodol ar gyfer pob deddfwriaeth nac y byddai hyn yn addas yng nghyd-destun pŵer i ddarparu cyllid. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod y gall eu cynnwys fod yn fanteisiol mewn rhai achosion.

Rwyf yn ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r pwyntiau a wnaethoch mewn perthynas ag argymhelliad pedwar, ynghyd â'r rhai a wnaed gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Rwy'n gweld bod yr argymhelliad hwn yn gysylltiedig â sut mae'r materion hynny'n cael eu datblygu.

Byddaf yn ysgrifennu at y pwyllgor i'w ddiweddaru wrth i gynigion gael eu datblygu.

**Argymhelliad 4**

**Dylai'r Bil, ar ei wyneb, ymrwymo Llywodraeth Cymru i ddarparu ei Chynnig Gofal Plant.**

Mae cydberthynas gref rhwng yr argymhelliad hwn ac argymhelliad naw a wnaed gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sy'n galw am i'r Bil ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu gofal plant a ariennir o fewn telerau'r cynnig.

Rwy'n **parhau i archwilio'r opsiynau** sydd ar gael i mi i ddiwallu'r argymhellion hyn, a'r egwyddorion sy'n eu cefnogi. Byddaf yn ysgrifennu at y pwyllgor i'w diweddaru wrth i gynigion gael eu datblygu.

**Argymhelliad 5**

**Dylid diwygio'r Bil fel bod y meini prawf cymhwysedd craidd sy'n ymwneud â phwy sy'n "blentyn cymwys" neu'n "rhiant sy'n gweithio" yn ymddangos ar wyneb y Bil. Yn sgil hynny, dylai'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n galluogi diwygio'r meini prawf hyn yn y dyfodol trwy reoliadau sy'n destun y weithdrefn gadarnhaol.**

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliannau yn ystod Cyfnod 2 i roi mwy o eglurder mewn perthynas â phwy sy'n "blentyn cymwys".

Rwy'n ymwybodol o argymhelliad 10 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch yr angen i sicrhau rhywfaint o hyblygrwydd o ran oedran plant cymwys ac felly byddaf yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng argymhellion y ddau bwyllgor yn hyn o beth.

**Argymhelliad 6**

**Pe na byddai'r Gweinidog yn derbyn Argymhelliad 5, dylai'r rheoliadau a wneir o dan adran 1 fod yn ddarostyngedig i weithdrefn uwch-gadarnhaol, yn hytrach na'r weithdrefn gadarnhaol, er mwyn darparu gwrthbwysed i ehangder y pŵer a geisir.**

**Nid wyf yn derbyn** yr argymhelliad hwn.

Mae'r argymhelliad hwn yn gysylltiedig ag argymhelliad 5. Rwy'n bwriadu darparu mwy o eglurder mewn perthynas â phwy sy'n "blentyn cymwys", a bydd bwriad polisi'r Bil yn gliriach o ganlyniad i hynny. Felly nid wyf yn bwriadu gwneud rheoliadau o dan adran 1 y Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwchgadarnhaol.

**Argymhelliad 7**

**Nid ydym o'r farn y dylai'r gyfradd fesul awr sy'n daladwy ar gyfer y gofal plant na phwy sy'n cael darparu gofal o'r fath fod yn faterion y dylid eu penderfynu heb graffu gan y Cynulliad Cenedlaethol ac y dylid cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau y gwneir darpariaeth o'r fath yn y rheoliadau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.**

**Nid wyf yn derbyn** yr argymhelliad hwn.

Mae'r gyfradd fesul awr y tu allan i gwmpas y Bil hwn.

Diben y Bil yw darparu'r sail ddeddfwriaethol sy'n angenrheidiol i ddatblygu proses ddigidol ar gyfer ymgeisio a gwirio cymhwysedd ar gyfer y cynnig gofal plant. Nid yw'n ymestyn i faterion yn ymwneud â'r gyfradd fesul awr, ac nid oeddem yn bwriadu i faterion o'r fath gael eu cynnwys yng nghylch gorchwyl yr is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil. Yn lle hynny, byddent o fewn y cynllun gweinyddu. Rwy'n ystyried bod materion megis pwy sy'n gallu darparu'r gofal plant, pa gyfradd sy'n daladwy iddynt a sut a ble y gall rhieni gael mynediad i'r cynnig yn elfennau pwysig o sut y bydd y cynllun yn gweithredu yn ei gyfanrwydd, ac mae'n bwysig bod Aelodau'r Cynulliad yn cael cyfle i ystyried y materion hyn yn fwy manwl.

Byddwn yn croesawu cyfle i ddychwelyd i'r Pwyllgor Plant, y Pwyllgor Addysg a Phobl Ifanc yn y gwanwyn i drafod cynllun gweinyddu drafft cychwynnol, a fydd yn ymdrin â'r materion hyn yn fanylach.

Mae'r gyfradd fesul awr yn amodol ar brofion sy'n parhau fel rhan o weithredu'r cynnig gofal plant yn gynnar. Mae ardaloedd newydd yng Nghaerdydd, er enghraifft, yn cael eu hychwanegu at y cynnig i weld a yw'r gyfradd fesul awr yn ymarferol mewn ardaloedd lle mae cost gofal plant yn uwch nag mewn rhannau eraill o Gymru.

Drwy roi manylion y gyfradd fesul awr yn y cynllun gweinyddu, yn hytrach nag mewn rheoliadau, byddwn mewn sefyllfa well a mwy hyblyg i allu adolygu'r gyfradd fesul awr yn gyson.

**Argymhelliad 8**

**Dylai'r Gweinidog gyfiawnhau yn ystod dadl Cyfnod 1 pam y mae wedi dewis cyhoeddi cynllun gweinyddu yn hytrach na rhoi canllawiau statudol i awdurdodau lleol.**

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Wrth ddatblygu'r Bil hwn penderfynwyd mai'r dull gorau oedd cadw'r Bil technegol hwn yn fyr a chanolbwyntio ar roi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu'r cynllun, gyda phwerau gwneud rheoliadau lle mae deddfwriaeth yn angenrheidiol yn unig, er enghraifft mewn perthynas â chaniatáu i drydydd parti ddarparu gwybodaeth ac apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

Rydym yn cynnig sefydlu cynllun gweinyddu o dan y pwerau yn adran 1 y Bil, gan nodi manylion gweithredol sut y bydd y cynnig yn gweithio – bydd hyn yn cynnwys manylion megis y rhaniad rhwng gofal plant ac addysg gynnar, sut mae'r cynnig yn gweithio yn ystod gwyliau ysgol, pa ddarparwyr all gyflwyno'r cynnig a sut y bydd darparwyr yn cael eu talu, er enghraifft.

Rhagwelir y bydd canllawiau'n ymwneud â'r cynllun (boed y rheini'n rhai statudol neu fel arall) yn cael eu rhoi i wahanol gynulleidfaoedd. Fodd bynnag, byddant yn ategu'r cynllun. Nid wyf o'r farn y gellir defnyddio'r canllawiau hynny yn lle cael cynllun gweinyddu: ni fyddai hyn yn rhoi'r sicrwydd a'r cysondeb rydym angen i rieni ledled Cymru elwa arno.

Bydd angen canllawiau hefyd, yn targedu gwahanol gynulleidfaoedd. Byddant yn esbonio i bob parti beth yw ei rôl benodol wrth gyflwyno'r cynllun gofal plant ac yn rhoi cyngor ar gymhwyso'r cynllun. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol wrth i ni ddatblygu'r canllawiau.

**Argymhelliad 9**

**Dylai'r Gweinidog, yn ystod dadl Cyfnod 1, roi eglurhad pellach ynghylch pam y mae'n credu na fydd Llywodraeth y DU, i bob pwrpas, yn cael rhoi feto ar y trefniadau cyllido gofal plant arfaethedig os bydd Llywodraeth y DU yn gwrthod darparu'r cydsyniad angenrheidiol ar gyfer unrhyw reoliadau sy'n gwneud darpariaeth o dan adrannau 4 a 5.**

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Bydd y Bil yn ein galluogi i sefydlu system ar gyfer ceisiadau a gwirio cymhwysedd ar gyfer y cynnig gofal plant. Mae'r dull a ffafrir gennym yn defnyddio CThEM fel yr asiant darparu ac

yn gofyn am fynediad at setiau data penodol sydd yn nwylo CThEM, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Swyddfa Gartref.

Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda CThEM, Swyddfa Cymru ac adrannau eraill Llywodraeth y DU ers misoedd lawer ac rwyf wedi bod yn hyderus y byddai unrhyw gydsyniad angenrheidiol gan Lywodraeth y DU yn cael ei sicrhau.

Mae’r cydsyniadau cychwynnol hyn wedi’u cael ac mae fy swyddogion bellach yn ymgysylltu ag adrannau perthnasol y DU ar y cam nesaf erbyn hyn, a fydd yn golygu sicrhau cydsyniad Gweinidogion y Goron i is-ddeddfwriaeth lle mae effaith ar drydydd parti.

Nid wyf yn rhagweld y bydd cydsyniad yn rhwystr i ni gyflawni’r trefniadau arfaethedig.

**Argymhelliad 10**

**Dylai’r Gweinidog ddarparu esboniad pellach yn ystod dadl Cyfnod 1 ynglŷn â’r defnydd yn adran 11 o’r geiriad “rhoi disgresiwn i unrhyw berson”.**

Rwy’n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Mae'r geiriad “rhoi disgresiwn i unrhyw berson” yn eiriad safonol a ddefnyddir yn aml mewn deddfwriaeth a bwriedir iddo sicrhau bod digon o gwmpas a hyblygrwydd deddfwriaethol wedi'i gynnwys mewn unrhyw drefniadau gweinyddol i sicrhau y gellir ymdrin ag unrhyw amgylchiadau eithriadol mor effeithiol â phosib.

**Argymhelliad 11**

**Dylai’r Nodiadau Esboniadol a fydd yn cyd-fynd â’r ddeddfwriaeth egluro bwriad ac effaith y geiriad “rhoi disgresiwn i unrhyw berson” yn adran 11.**

Rwyf yn **derbyn** yr argymhelliad hwn a bydd y Nodiadau Esboniadol yn cael eu diwygio i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn ystod Cyfnod 2.

**Argymhelliad 12**

**Dylid diwygio’r Bil fel bod unrhyw Orchymyn a wneir o dan adran 12(1) o’r Bil yn destun craffu a’r weithdrefn negyddol.**

**Nid wyf yn derbyn** yr argymhelliad hwn.

Nid yw gwneud gorchmynion cychwyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn fel arfer, gan eu bod yn rhoi grym i’r hyn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i gymeradwyo. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn wedi'i egluro eisoes. Felly, ni welaf unrhyw reswm i wyro oddi wrth y confensiwn presennol mewn perthynas â gorchmynion cychwyn.